Ddeddf Cwmnïau 2006

Tŷ'r Cwmnïau
er gwybodaeth

ymddatod ac ansolfedd

GP08 CYM - Mai 2010



BIS
GWASANAETH GAN BIS

Mae'r canllaw hwn ar gael ar ffurfiau eraill gan gynnwys Braille, print mawr a thâp sain. Am fanylion pellach ewch i'n gwefan – www.companieshouse.gov.uk, e-bostiwch ein hadran ymholiadau ar enquiries@companieshouse.gov.uk neu ffoniwch ein canolfan gyswllt ar 0303 1234 500.

A yw'r canllaw hwn i chi?

Bydd y canllaw hwn yn berthnasol i chi:

- os ydych yn gyfarwyddwr neu'n ysgrifennydd cwmni
- os ydych yn gweithredu fel ymgynghorydd i gwmni

Cynnwys

Cyflwyniad

1. Gwybodaeth gyffredinol

2. Trefniadau gwirfoddol corfforaethol (TGC), gan gynnwys moratoria TGC

3. ‘Yn nwylo gweinyddwr’ a ‘gorchmynion gweinyddu’

    - Achosion yn dechrau ar neu wedi 15 Medi 2003: Yn nwylo gweinyddwr

4. Derbynwyr

5. Ymddatod gwirfoddol

6. Ymddatod gorfodol

7. Gweithrediadau ansolfedd trawsffiniol Ewropeaidd

8. Cwestiynau cyffredin

9. Ansawdd dogfennau

10. Gwybodaeth bellach

Mae’r canllaw hwn yn ateb llawer o gwestiynau cyffredin ac yn cynnig gwybodaeth am sut i fynd ati i gwblhau rhai o’r dogfennau ffeilio mwyaf cyffredin yn y maes yma. Ni chafodd ei ddrafftio gyda thrafodion anarferol na chymhleth mewn golwg. Mae’n bosibl y bydd angen gofyn am gyngor proffesiynol arbenigol mewn achosion o’r fath.

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn cynnig gorolwg sylfaenol o'r drefn ansolfedd ac ymddatod a gwybodaeth fanylach am y dogfennau y mae angen eu cyflwyno i'r Cofrestrydd Cwmnïau. Mae'n crynhoi rhai o'r rheolau sy'n berthnasol i drefniadau gwirfoddol corfforaethol, moratoria, gorchmynion gweinyddu, derbynwyr, ymddatod gwirfoddol, ymddatod gorfodol a rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd.

Gall Tŷ'r Cwmnïau helpu gydag ymholiadau am gyflwyno dogfennau i'r Cofrestrydd. Dylid cyfeirio ymholiadau eraill at y Gwasanaeth Ansolfedd yn y lle cyntaf. Mae gweithrediadau ansolfedd yn arwain at achosion llys yn aml, ac am hynny, mae'n bosibl y bydd angen i ymarferwyr drefnu cyfarfodydd a pharatoi adroddiadau statudol. Mae'n bwysig nodi nad oes angen anfon yr holl wybodaeth yma at y Cofrestrydd.

Mae'r gofynion yn gymhleth, ac ni chewch yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddirwyn cwmni anhydal i ben yn y canllaw hwn. Rydyn ni'n eich cynghori chi i ofyn am gyngor proffesiynol annibynnol os ydych chi'n amau bod eich cwmni'n anhydal, neu os yw hynny'n debygol o ddigwydd.

Ar ôl cychwyn gweithrediadau ansolfedd, caiff ymarferydd ansolfedd awdurdodedig neu berson proffesiynol arall ei benodi i reoli materion y cwmni fel rheol.

Gallwch ddarllen y ddeddfwriaeth berthnasol yn:

- Neddf Cwmnïau 2006;
- Deddf Ansolfedd 1986 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheolau Ansolfedd 1986 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliad Cyngor (y GE) Rhif 1346/2000; a
- Deddf Menter 2002.

Mae'r trefniadau dirwyn i ben, ymddatod, ansolfedd, atal taliadau a threfniadau tebyg sy'n gymwys i CCC hefyd yn gymwys i gwmnïau Ewropeaidd, 'Societas Europaea' (SE), sydd wedi eu cofrestru ym Mhrydain Fawr. Mae gwybodaeth gyffredinol ynghylch cwmnïau SE yn ein canllaw 'The European Company: Societas Europaea (SE)'.

Pennod 1
Gwybodaeth gyffredinol

1. Beth yw gweithrediadau ansolfedd?

Dyma'r camau ffurfiol a gymerir i ddelio â dyled cwmni. Mae sawl math o weithrediadau ansolfedd gwahanol yn bodoli ar gyfer cwmnïau. Mae'r llyfryn hwn yn ymdrin â phob un ohonynt.

Sylwer: rhaid defnyddio Ffurflen SE WU01 i roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau am gychwyn neu derfynu trefniadau ansolfedd sy'n effeithio ar gwmni Ewropeaidd (SE), neu am unrhyw benderfyniad i barhau i weithredu'r SE. Mae hyn yn ogystal â'r gofynion eraill a drafodir yn y canllaw hwn. Mae rhagor o wybodaeth am gwmnïau SE yn ein canllaw 'The European Company: Societas Europaea (SE)'.

2. A yw gweithrediadau ansolfedd yn berthnasol i bob math o gwmni?

Mae'r rhannau o'r canllaw hwn sy'n ymwneud â dirwyn i ben yn orfodol a derbynwyr (gan gynnwys derbynwyr gweinyddol) yn berthnasol i gwmnïau wedi eu cofrestru a heb eu cofrestru (gan gynnwys cwmnïau tramor).

Nid yw'r rhannau o'r canllaw hwn sy'n ymwneud â dirwyn i ben yn wirfoddol a gorchmynion gweinyddu yn gymwys i gwmnïau heb eu cofrestru, am na ellir mo'u dirwyn i ben drwy'r dulliau hyn.

Os dechreuodd yr ymddatod neu'r dderbynyddiaeth cyn 29 Rhagfyr 1986, yna bydd y gyfraith oedd mewn grym ar y pryd yn dal yn berthnasol.

Cofiwch: Nid yw pob cwmni sydd wedi ymddatod yn anhydal.

3. Oes rhaid i bob cwmni ddilyn gweithrediadau ansolfedd cyn ei ddiddymu?

Nac oes. Os oes gan y Cofrestrydd le i gredu nad yw cwmni'n cynnal busnes nac yn gweithredu, gall ddileu ei enw o'r gofrestr a'i ddiddymu heb fynd drwy'r drefn ymddatod. Caiff cwmni preifat nad yw'n masnachu wneud cais i'r Cofrestrydd am i'w enw gael ei ddileu o'r gofrestr. **Nid yw'r drefn hon yn ddewis arall yn lle gweithrediadau ansolfedd ffurfiol.**

Mae rhagor o wybodaeth am ddileu enwau a diddymu cwmnïau yn ein canllaw 'Dileu o'r Gofrestr, Diddymu ac Adfer'.

4. A gaiff unrhyw un oruchwylio gweithrediadau ansolfedd?

Rhaid i bob datodydd, gweinyddwr, derbynnydd gweinyddol a goruchwylydd a gychwynnodd yn ei swydd ar 29 Rhagfyr 1986 neu ers hynny, fod yn ymarferydd ansolfedd awdurdodedig.

Nid oes rhaid i reolwyr derbyn, derbynwyr y Ddeddf Cyfraith Eiddo nac enwebeion a benodir i reoli moratoriwm drwy drefniadau gwirfoddol corfforaethol, fod wedi eu hawdurdodi.

Gall ymarferwyr ansolfedd gael eu hawdurdodi gan:

- Gymdeithas Siartredig y Cyfrifwyr Ardystiedig;
- Cymdeithas yr Ymarferwyr Ansolfedd;
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr;
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon;
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban;
- Cymdeithas y Gyfraith;
- Cymdeithas Cyfraith yr Alban; neu
- Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau.

5. Beth sy'n digwydd i gyfarwyddwyr cwmni anhydal?

Mae gan y datodydd, y derbynnydd gweinyddol, y gweinyddwr neu'r Derbynnydd Swyddogol ddyletswydd i gyflwyno adroddiad ar ymddygiad pob cyfarwyddwr oedd mewn swydd yn ystod y 3 blynedd olaf y buodd y cwmni'n masnachu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu a fyddai ceisio gorchymyn gwahardd yn erbyn cyfarwyddwr o fudd i'r cyhoedd.

Mae'r mathau o ymddygiad mwyaf cyffredin sy'n esgor ar adroddiad yn cynnwys:

- parhau i fasnachu er bod y cwmni'n anhydal;
- methu â chadw cofnodion cyfrifeg priodol;
- methu â pharatoi a ffeilio cyfrifon neu gyflwyno ffurflenni i Dŷ'r Cwmnïau; a
- methu â chyflwyno ffurflenni i'r Goron neu dalu unrhyw dreth sy'n ddyledus i'r Goron.

Pennod 2
Trefniadau gwirfoddol corfforaethol (TGC), gan gynnwys moratoria TGC

1. Beth yw trefniadau gwirfoddol corfforaethol?

Trefniadau gwirfoddol corfforaethol yw lle bo cwmni'n gwneud cytundeb â'i gredydwyr drwy gynnig 'cyfrandalu i fodloni ei ddyled' neu 'gynllun i drefnu ei faterion'. Mae hyn yn golygu sefydlu trefniadau, wedi eu cymeradwyo gan y llys, lle mae'r cwmni wedi dod i gytundeb ffurfiol â'i gredydwyr ar delerau i glirio'i ddyledion.

2. Pwy gaiff gynnig trefniadau gwirfoddol corfforaethol?

Gall y bobl ganlynol gynnig trefniadau gwirfoddol corfforaethol:

- y gweinyddwr, os oes gorchymyn gweinyddu;
- y datodydd, os yw'r cwmni'n cael ei ddirwyn i ben; neu
- y cyfarwyddwyr, o dan amgylchiadau eraill.

3. Pwy sy'n ystyried y cynnig?

Pan fydd y cyfarwyddwyr yn cynnig trefniadau, bydd y person a enwebwyd i oruchwylio eu gweithrediad yn cyflwyno adroddiad i'r llys cyn pen 28 diwrnod. Yn yr adroddiad, bydd yn nodi a yw'n credu y dylid galw cyfarfodydd o'r cwmni a'i gredydwyr.

4. Sut caiff trefniadau gwirfoddol corfforaethol eu cymeradwyo?

Bydd y cyfarfodydd a drefnir gan y person a enwebwyd yn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r trefniadau wedi eu haddasu, neu heb eu haddasu ond yn amodol ar rai cyfyngiadau. Bydd hyn yn cyfrwymo pob credydwr a gafodd rybudd o'r cyfarfod ac yr oedd ganddo hawl i bleidleisio. Bydd yr holl gredydwyr a gafodd rybudd o'r cyfarfod wedi eu cyfrwymo gan delerau'r trefniadau.

5. Beth sy'n digwydd pan gaiff y trefniadau gwirfoddol corfforaethol eu cymeradwyo?

Os bydd cyfarfodydd yr aelodau a'r credydwyr yn cymeradwyo'r trefniadau, yna daw'r person a enwebwyd, neu rywun arall yn ei le, yn oruchwylydd y trefniadau hynny.

6. Beth sydd angen ei anfon i Dŷ'r Cwmnïau?

Rhaid i'r goruchwylydd gyflwyno copi o adroddiad cadeirydd y cyfarfod.

O leiaf unwaith bob 12 mis, rhaid i'r goruchwylydd anfon adroddiad ar gynnydd y trefniadau gwirfoddol a'r rhagolygon ar gyfer eu cyflawni'n llwyr, at bob buddiolwr, gan gynnwys y Cofrestrydd. Rhaid i'r goruchwylydd hysbysu'r Cofrestrydd o fewn 28 diwrnod ar ôl cwblhau'r trefniadau gwirfoddol yn derfynol.

Rhaid rhoi gwybod i'r Cofrestrydd os caiff y trefniadau eu gohirio neu eu dileu.

Yn sgil gweithredu Rheolau Ansolfedd (Diwygio) 2010, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2010, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn pennu'r ffurflenni ansolfedd canlynol o fewn Rheolau'r Cofrestrydd am y tro cyntaf. Rhaid ffeilio'r ffurflenni isod gyda'r Cofrestrydd, ar gyfer yr holl drefniadau gwirfoddol corfforaethol. Rhaid defnyddio'r ffurflenni hyn gyda'r diwygiadau priodol (os yw'n briodol) ar gyfer unrhyw drefniadau a ddechreuodd ar 5 Ebrill 2010 neu cyn hynny:

Teitl y ffurflen	***Rhif***
Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau i roi grym i drefniadau gwirfoddol	1.1
Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau i ddileu neu atal trefniadau gwirfoddol	1.2
Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau am adroddiad y goruchwylydd ar gynnydd	1.3
Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau am gwblhau neu derfynu trefniadau gwirfoddol	1.4

Sylwer: Nid yw'r ffurflenni hyn ar gael i'w dadlwytho o wefan Tŷ'r Cwmnïau ond gallwch weld delweddau o'r dogfennau hyn yn Rheolau'r Cofrestrydd. Mae copïau ar gael gan ddogfenwyr y gyfraith cwmnïau.

7. Moratoriwm drwy drefniadau gwirfoddol corfforaethol

Cyflwynodd Deddf Ansolfedd 2000 opsiwn y moratoriwm i'r trefniadau gwirfoddol corfforaethol presennol.

Y llysoedd fydd yn penderfynu a yw cwmni'n gymwys ar gyfer y moratoriwm. Bydd y moratoriwm yn para am gyfnod o 28 diwrnod fel rheol ac fe gaiff ei reoli gan berson a enwebir, a all fod yn ymarferydd ansolfedd cofrestredig neu beidio.

Ar ddiwedd cyfnod moratoriwm, gall cwmni fwrw ymlaen i fabwysiadu trefniadau gwirfoddol corfforaethol (neu beidio).

Yn sgil gweithredu Rheolau Ansolfedd (Diwygio) 2010, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2010, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn pennu'r ffurflenni ansolfedd canlynol o fewn Rheolau'r Cofrestrydd am y tro cyntaf ar gyfer pob moratoriwm ar drefniadau gwirfoddol corfforaethol. Rhaid defnyddio'r ffurflenni hyn gyda'r diwygiadau priodol (os yw'n briodol) ar gyfer unrhyw drefniadau a ddechreuodd ar 5 Ebrill 2010 neu cyn hynny:

Teitl y ffurflen	***Rhif***
Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau am ddechrau moratoriwm	1.11
Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau am ymestyn, adnewyddu neu barhau â moratoriwm	1.12
Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau am derfynu moratoriwm	1.14
Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau i dynnu'n ôl gydsyniad y person a enwebwyd i weithredu	1.16
Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau i benodi enwebai arall	1.18

Sylwer: Nid yw'r ffurflenni hyn ar gael i'w dadlwytho o wefan Tŷ'r Cwmnïau ond gallwch weld delweddau o'r dogfennau hyn yn Rheolau'r Cofrestrydd. Mae copïau ar gael gan ddogfenwyr y gyfraith cwmnïau.

Pennod 3
'Yn nwylo gweinyddwr' a 'gorchmynion gweinyddu'

Cyflwynwyd y gyfraith bresennol mewn perthynas â gweinyddu ar 15 Medi 2003. O dan y drefn hon, caiff cwmni ei ddisgrifio fel ei fod 'yn nwylo gweinyddwr' fel arfer – o dan yr hen drefn, byddai'r cwmni wedi bod yn destun 'gorchymyn gweinyddu'.

Amlinelliad cryno o'r broses weinyddu a geir isod: nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

1. Beth yw 'yn nwylo gweinyddwr'?

Mae hyn yn digwydd pan fo rhywun, sef 'y gweinyddwr', yn cael ei benodi i reoli materion, busnes ac eiddo'r cwmni er lles y credydwyr. Rhaid i'r person a benodir fod yn ymarferydd ansolfedd a chanddo statws swyddog llys (dim ots a gaiff ei benodi gan y llys neu beidio).

Diben gweinyddu fydd:

(a) achub y cwmni fel busnes gweithredol;

(b) sicrhau gwell pris am asedau'r cwmni neu sylweddu eu gwerth yn fwy ffafriol i'r credydwyr yn gyffredinol nag a fyddai'n bosibl trwy ddirwyn y cwmni i ben (heb fynd i ddwylo gweinyddwr yn gyntaf); neu

(c) o dan rai amgylchiadau, sylweddu gwerth yr eiddo er mwyn trosglwyddo'r elw i un neu ragor o'r blaen-gredydwyr.

2. Sut mae cwmni'n mynd i ddwylo gweinyddwr?

Bydd cwmni'n mynd 'i ddwylo gweinyddwr' pan ddaw penodiad gweinyddwr i rym. Gellir penodi gweinyddwr:

(a) drwy orchymyn gweinyddu gan y llys;

(b) trwy law deiliad arwystl nofiol; neu

(c) trwy law'r cwmni neu ei gyfarwyddwyr.

Rhaid i'r gweinyddwr gyflawni ei swyddogaethau mor fuan ac effeithlon ag sy'n rhesymol bosibl.

3. Beth yw effaith bod yn nwylo gweinyddwr?

Pan fydd cwmni'n mynd i ddwylo gweinyddwr:

- caiff unrhyw ddeisebau dirwyn i ben sy'n disgwyl penderfyniad eu rhoi heibio neu eu hatal;

- ceir moratoriwm ar unrhyw drefniadau ansolfedd neu drefniadau cyfreithiol eraill;

- os penodwyd derbynnydd gweinyddol, rhaid iddo ildio'i swydd;

- os penodwyd derbynnydd ar gyfer rhan o eiddo'r cwmni, rhaid iddo ildio'i swydd (lle bo'r gweinyddwr yn gofyn am hynny).

4. Pwy sydd angen gwybod bod y cwmni yn nwylo gweinyddwr?

Rhaid i'r gweinyddwr roi gwybod i'r cwmni ac i bob un o'i gredydwyr am ei benodiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad am y penodiad yn y *Gazette* ac mewn papur newydd ym mhrif ardal fusnes y cwmni.

Beth yw'r Gazette?
Newyddiadur cofnodion swyddogol yw'r Gazette ac mae'n cynnwys amryw o rybuddion a hysbysiadau statudol. Fe'i cyhoeddir bob dydd. Y *London Gazette* a olygir yn achos cwmnïau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr.

Caiff hysbysiadau a gyhoeddir gan y Cofrestrydd Cwmnïau ar gyfer Cymru a Lloegr eu cynnwys yn Atodlen y *London Gazette* sy'n rhestru Hysbysiadau Swyddogol ym maes y Gyfraith Cwmnïau. Fe'i cyhoeddir ar ffurf *microfiche*. Fe welwch gopïau yn stafelloedd chwilio Tŷ'r Cwmnïau yng Nghaerdydd a Llundain. Mae copïau gan rai o'r llyfrgelloedd cyhoeddus mwyaf hefyd. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn y *Gazette*.

Rhaid i'r gweinyddwr hysbysu'r Cofrestrydd am ei benodiad.

Pan fo cwmni yn nwylo gweinyddwr, rhaid i bob dogfen fusnes a gyhoeddir gan neu ar ran y cwmni neu'r gweinyddwr ddatgan enw'r gweinyddwr a'r ffaith ei fod yn rheoli materion, busnes ac eiddo'r cwmni.

5. Beth sy'n digwydd yn ystod y broses weinyddu?

Bydd y gweinyddwr yn gofyn i'r bobl berthnasol (e.e. swyddog neu weithiwr i'r cwmni) am gopi o ddatganiad o faterion y cwmni.

Cyn pen dim mwy nag 8 wythnos ar ôl i'r cwmni fynd i ddwylo'r gweinyddwr, rhaid iddo lunio datganiad sy'n disgrifio cynigion i gyflawni dibenion y gweinyddu neu'n egluro pam nad oes modd eu cyflawni. Gall y cynigion gynnwys trefniadau gwirfoddol, cyfaddawd neu drefniadau gyda'r credydwyr neu'r aelodau.

Rhaid anfon y datganiad sy'n nodi'r cynigion at:

- y Cofrestrydd Cwmnïau;
- pob un o gredydwyr y cwmni y mae'n ymwybodol o'i hawliad a'i gyfeiriad; a
- phob aelod o'r cwmni y mae'n ymwybodol o'i gyfeiriad.

Rhaid anfon gwahoddiad i gyfarfod o'r credydwyr gyda phob copi o'r cynigion a anfonir. Busnes cyfarfod cychwynnol y credydwyr fydd cymeradwyo'r datganiad o gynigion (gyda diwygiadau neu hebddynt). Yn sgil y cyfarfod cychwynnol gall y gweinyddwr:

- gynnal cyfarfodydd pellach o'r credydwyr,
- ffurfio pwyllgor credydwyr, neu
- ymdrin â materion trwy ohebiaeth â'r credydwyr.

Rhaid i'r gweinyddwr roi gwybod i'r aelodau am unrhyw ddiwygiadau i'r cynigion yn sgil cyfarfod y credydwyr.

Rhaid rhoi gwybod i'r Cofrestrydd Cwmnïau am unrhyw benderfyniadau a wneir yng nghyfarfodydd y credydwyr.

6. Pryd daw'r gweinyddu i ben?

Mae sawl ffordd y gall y gweinyddu ddod i ben.

Gall y gweinyddu ddod i ben yn awtomatig wrth i gyfnod gwasanaethu'r gweinyddwr ddod i ben. Mae penodiad gweinyddwr yn terfynu ar ôl blwyddyn. Ond gellir estyn hyn drwy gydsyniad y credydwyr neu'r llys. Rhaid rhoi gwybod i'r Cofrestrydd am unrhyw estyniad.

Gall gweinyddwr a benodir o dan orchymyn llys wneud cais i'r llys am derfynu'r gweinyddu os yw'n credu nad oes modd cyflawni diben y gweinyddu neu na ddylai'r cwmni fod wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwr, neu os bydd cyfarfod o'r credydwyr yn mynnu ei fod yn gwneud cais o'r fath. Bydd y llys yn rhyddhau'r gorchymyn gweinyddu a bydd rhaid i'r gweinyddwr hysbysu'r Cofrestrydd yn hynny o beth.

Gall gweinyddwr a benodir gan ddeiliad arwystl nofiol neu gan y cwmni neu ei gyfarwyddwyr derfynu'r gweinyddu pan fo diben y gweinyddu wedi ei gyflawni'n ddigonol. Rhaid i'r gweinyddwr ffeilio'r hysbysiad gyda'r llys a'r Cofrestrydd.

Gall y gweinyddu ddod i ben os bydd credydwr yn gwneud cais i'r llys, gan honni cymhelliad amhriodol ar ran y person a benododd y gweinyddwr neu'r

person a wnaeth gais i'r llys am orchymyn gweinyddu. Rhaid i'r gweinyddwr anfon copi o'r gorchymyn at y Cofrestrydd ynghyd â'r ffurflen berthnasol.

Gall y gweinyddu ddod i ben wrth i'r cwmni symud ymlaen i drefn dirwyn i ben yn wirfoddol gan y credydwyr. Gall hyn ddigwydd lle bo'r gweinyddwr o'r farn bod pob credydwr gwarantedig yn debyg o gael ei dalu ac y bydd dosbarthiad ymhlith y credydwyr anwarantedig os yw hynny'n berthnasol. Rhaid i'r gweinyddwr hysbysu'r Cofrestrydd, a chaiff y cwmni ei ddirwyn i ben, yn yr un modd â phe bai penderfyniad gwirfoddol i ddirwyn y cwmni i ben wedi cael ei fabwysiadu, ar y diwrnod y ***cofrestrir*** yr hysbysiad gyda'r Cofrestrydd.

Gall y gweinyddu ddod i ben wrth i'r cwmni symud ymlaen i ymddatod. Gall hyn ddigwydd lle bo'r gweinyddwr o'r farn nad oes gan y cwmni eiddo y gellid ei ddosbarthu ymhlith ei gredydwyr. Rhaid i'r gweinyddwr roi gwybod i'r Cofrestrydd am hyn, a chaiff y cwmni ei ddatod dri mis ar ôl dyddiad cofrestru'r ffurflen.

Caiff y cwmni ei ddatod ar ddiwedd y cyfnod o dri mis, oni wneir gorchymyn i estyn neu ohirio'r cyfnod neu atal yr ymddatod. Rhaid hysbysu'r Cofrestrydd am y gorchymyn.

7 . Pa ffurflenni y dylid eu defnyddio?

Yn sgil gweithredu Rheolau Ansolfedd (Diwygio) 2010, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2010, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn pennu'r ffurflenni ansolfedd canlynol o fewn Rheolau'r Cofrestrydd am y tro cyntaf. Rhaid ffeilio'r ffurflenni isod gyda'r Cofrestrydd ar gyfer pob cwmni sydd yn nwylo'r gweinyddwr. Rhaid defnyddio'r ffurflenni hyn gyda'r diwygiadau priodol (os yw'n berthnasol) ar gyfer unrhyw gwmnïau a aeth i ddwylo'r gweinyddwr ar 5 Ebrill 2010 neu cyn hynny:

Teitl y ffurflen	***Rhif***
Hysbysiad am benodi gweinyddwr	2.12B(CH)
Hysbysiad am ddatganiad o faterion	2.16B
Hysbysiad am estyn cyfnod	2.18B(CH)
Hysbysiad am gymeradwyaeth dybiedig i gynigion	F2.18
Datganiad o gynigion diwygiedig y gweinyddwr	2.22B(CH)
Hysbysiad am ganlyniad cyfarfod o'r credydwyr	2.23B(CH)
Adroddiad y gweinyddwr ar gynnydd	2.24B
Tystysgrif [ddiwygiedig] am gyfansoddiad pwyllgor o gredydwyr	2.26B(CH)
Hysbysiad am derfynu gweinyddiad yn awtomatig	2.30B(CH)
Hysbysiad am estyn cyfnod gweinyddu	2.31B
Hysbysiad am derfynu gweinyddiad	2.32B(CH)
Hysbysiad am orchymyn llys yn terfynu gweinyddiad	2.33B
Hysbysiad am symud o weinyddu i ymddatod gwirfoddol gan y credydwyr	2.34B
Hysbysiad am symud o weinyddu i ymddatod	2.35B
Hysbysiad i'r cofrestrydd cwmnïau mewn perthynas â dyddiad ymddatod	2.36B
Hysbysiad am fwriad gweinyddwr i ymddiswyddo	2.37B

Hysbysiad am ymddiswyddiad gweinyddwr	2.38B(CH)
Hysbysiad bod gweinyddwr wedi gadael ei swydd	2.39B
Hysbysiad am benodiad gweinyddwr newydd/ychwanegol	2.40B

Sylwer: Nid yw'r ffurflenni hyn ar gael i'w dadlwytho o wefan Tŷ'r Cwmnïau ond gallwch weld delweddau o'r dogfennau hyn yn Rheolau'r Cofrestrydd. Mae copïau ar gael gan ddogfenwyr y gyfraith cwmnïau.

Pennod 4
Derbynwyr

1. Beth yw derbynnydd?

Ceir sawl gwahanol fath o dderbynwyr ac mae eu pwerau'n amrywio yn ôl amodau eu penodiad.

Mae derbynnydd gweinyddol yn berson sy'n derbyn neu'n rheoli'r cyfan neu ran sylweddol o eiddo'r cwmni ac a benodir gan neu ar ran deiliaid unrhyw rai o ddyledebion y cwmni sydd wedi eu gwarantu drwy arwystl nofiol. Mae ganddo'r pŵer i werthu (neu sylweddu mewn ffordd arall) yr asedau sy'n dod o fewn cwmpas yr arwystl nofiol, a sianelu'r elw i'r ddyled sy'n daladwy i ddeiliad yr arwystl.

Gellir penodi derbynwyr nad ydynt yn rhai gweinyddol o dan amgylchiadau eraill. Er enghraifft, o dan y pwerau a gynhwysir mewn offeryn neu ddogfen sy'n creu arwystl dros eiddo'r cwmni, gellir penodi derbynnydd neu reolwr nes i'r ddyled gael ei bodloni'n llwyr. Gellir penodi derbynwyr hefyd o dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925.

2. Pwy sy'n hysbysu am benodi derbynnydd?

Y person sy'n penodi'r derbynnydd gweinyddol, y derbynnydd neu'r rheolwr, neu sy'n trefnu'r penodiad o dan bwerau offeryn, sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r Cofrestrydd, a hynny cyn pen 7 diwrnod ar ôl ei benodi. Mae angen cyflwyno Ffurflen LQ01 am bob arwystl unigol a gofrestrir yn Nhŷ'r Cwmnïau ac y penodir y derbynnydd ar ei gyfer, dim ots a yw'r penodiad yn ymwneud â rhan o eiddo'r cwmni neu ei holl asedau. Rhaid i'r derbynnydd gweinyddol gyhoeddi hysbysiad o'i benodiad yn y Gazette ac mewn papur newydd priodol hefyd.

Pan fydd y derbynnydd gweinyddol, y derbynnydd neu'r rheolwr yn rhoi'r gorau i weithredu, rhaid hysbysu'r Cofrestrydd trwy gyflwyno Ffurflen LQ02.

Sylwer: Rhaid ffeilio ffurflenni LQ01 ac LQ02 ar wahân ar gyfer pob arwystl unigol a gofrestrir yn Nhŷ'r Cwmnïau y penodir derbynnydd ar ei gyfer ac/neu y mae derbynnydd yn peidio â gweithredu drosto, dim ots a yw'r penodiad yn ymwneud â rhan o eiddo'r cwmni neu ei holl asedau.

3. Beth mae'n rhaid i'r derbynnydd ei anfon i Dŷ'r Cwmnïau?

Cyn pen 3 mis ar ôl ei benodi, rhaid i dderbynnydd gweinyddol gyflwyno adroddiad i'r canlynol:

- y Cofrestrydd;
- credydwyr y cwmni;
- deiliaid arwystl nofiol; ac
- unrhyw ymddiriedolwyr ar ran credydwyr gwarantedig y cwmni.

Rhaid i'r adroddiad egluro amgylchiadau'r penodiad a'r camau y mae'r derbynnydd gweinyddol yn eu cymryd.

Rhaid i'r adroddiad gynnwys hefyd grynodeb o unrhyw 'ddatganiad o amgylchiadau' a baratowyd gan swyddogion neu weithwyr y cwmni ar gyfer y derbynnydd.

Datganiad o amgylchiadau

Dyma grynodeb o asedau, rhwymedigaethau a chredydwyr y cwmni. Bydd y derbynnydd gweinyddol yn penderfynu a oes angen datganiad, a phwy ddylai ei baratoi.

Rhaid i bob derbynnydd anfon cyfrif o'r derbyniadau a'r taliadau ar gyfer 12 mis cyntaf y dderbynyddiaeth at y Cofrestrydd, ac:

- yn achos derbynwyr gweinyddol, bob 12 mis wedyn;
- yn achos derbynwyr a rheolwyr, bob 6 mis wedyn.

4. Pa ffurflenni y dylid eu defnyddio?

Yn sgil gweithredu Rheolau Ansolfedd (Diwygio) 2010, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2010, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn pennu'r ffurflenni ansolfedd canlynol o fewn Rheolau'r Cofrestrydd, a rhai ohonynt am y tro cyntaf. Rhaid ffeilio'r ffurflenni isod gyda'r Cofrestrydd ar gyfer pob achos o dderbynyddiaeth

Teitl y ffurflen	**Rhif**
Hysbysiad am benodi derbynnydd neu reolwr	LQ01
Hysbysiad am roi'r gorau i weithredu fel derbynnydd neu reolwr	LQ02
Datganiad o faterion mewn derbynyddiaeth weinyddol yn sgil adroddiad i'r credydwyr	3.3
Tystysgrif cyfansoddiad (tystysgrif ddiwygiedig) pwyllgor y credydwyr	3.4
Adroddiad y derbynnydd gweinyddol am newid yn aelodaeth pwyllgor y credydwyr	3.5
Crynodeb y derbynnydd neu'r rheolwr neu'r derbynnydd gweinyddol o dderbyniadau a thaliadau	3.6
Hysbysiad am farwolaeth derbynnydd gweinyddol	3.7

Hysbysiad am orchymyn i waredu eiddo	3.8
Adroddiad y derbynnydd gweinyddol	3.10

Sylwer: Ac eithrio Ffurflenni LQ01 ac LQ02, nid yw'r ffurflenni hyn ar gael i'w dadlwytho o wefan Tŷ'r Cwmnïau ond gallwch weld delweddau o'r dogfennau hyn yn Rheolau'r Cofrestrydd. Mae copïau ar gael gan ddogfenwyr y gyfraith cwmnïau.

Pennod 5

Ymddatod gwirfoddol

Ceir dau fath o ymddatod gwirfoddol:

- ymddatod gwirfoddol gan yr aelodau (YGA) – sy'n golygu bod y cyfarwyddwyr wedi gwneud datganiad hydaledd ffurfiol;

- ymddatod gwirfoddol gan y credydwyr (YGC) – sy'n golygu nad yw'r cyfarwyddwyr wedi gwneud datganiad o'r fath.

1. Pryd gall y cwmni drefnu YGA?

Gall hyn ddigwydd lle bo cyfarwyddwyr y cwmni'n credu bod y cwmni'n hydal.

Rhaid i fwyafrif cyfarwyddwyr y cwmni wneud datganiad hydaledd statudol yn ystod y 5 wythnos cyn mabwysiadu penderfyniad i ddirwyn y cwmni i ben.

2. Beth sydd yn y datganiad?

Bydd y datganiad statudol yn dweud bod y cyfarwyddwyr wedi ymchwilio'n llawn i faterion y cwmni ac, ar sail hynny, eu bod o'r farn y bydd modd i'r cwmni dalu ei ddyledion yn llwyr cyn pen 12 mis ar ôl dechrau'r broses dirwyn i ben. Bydd y datganiad yn cynnwys rhestr o asedau a rhwymedigaethau'r cwmni fel yr oeddent ar y dyddiad ymarferol olaf cyn gwneud y datganiad.

3. Pryd bydd yr ymddatod yn dechrau o ddifrif?

Bydd yr ymddatod yn dechrau pan fo'r aelodau'n mabwysiadu penderfyniad (Deddf Cwmnïau 2006) (penderfyniad arbennig fel arfer) i ddirwyn y cwmni i ben yn wirfoddol mewn cyfarfod cyffredinol.

4. Oes rhaid rhoi gwybod i rywun am yr ymddatod gwirfoddol?

Oes. Rhaid cyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad arbennig i ddirwyn y cwmni i ben yn wirfoddol yn y Gazette cyn pen 14 diwrnod ar ôl y cyfarfod cyffredinol. Rhaid i'r cwmni anfon copi o'r datganiad a'r penderfyniad arbennig at y Cofrestrydd cyn pen 15 diwrnod ar ôl y cyfarfod cyffredinol hefyd.

5. Pryd gall YGC fod yn briodol?

Gall cwmni drefnu YGC pan na all dalu ei ddyledion.

6. Beth sydd rhaid i'r cwmni ei wneud?

Bydd y cwmni'n mabwysiadu penderfyniad arbennig (Deddf Cwmnïau 2006) i ddweud na all barhau mewn busnes oherwydd ei rwymedigaethau ac mai'r peth doethaf fyddai dirwyn y cwmni i ben.

Rhaid gwneud y canlynol:

- cyhoeddi'r penderfyniad yn y Gazette cyn pen 14 diwrnod; a
- hysbysu'r Cofrestrydd am y penderfyniad cyn pen 15 diwrnod.

Rhaid cynnal cyfarfod o'r credydwyr yn ystod y 14 diwrnod ar ôl mabwysiadu'r penderfyniad. Rhaid anfon rhybudd am y cyfarfod at y credydwyr o leiaf 7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod. Hefyd, rhaid i'r cyfarwyddwyr baratoi datganiad o amgylchiadau i'w drafod yn y cyfarfod, a phenodi un o'u plith i fod yn bresennol a llywyddu'r cyfarfod.

Wrth benodi'r diddymydd, rhaid i'r cyfarwyddwyr roi datganiad o amgylchiadau'r cwmni iddo a chydweithredu ag ef mewn ffyrdd eraill.

7. Oes rhaid i'r cwmni gyhoeddi rhybudd o'r cyfarfod?

Oes. Rhaid cyhoeddi rhybudd o'r cyfarfod yn y Gazette a dau bapur newydd ym mhrif ardal fusnes y cwmni.

8. Beth yw prif ddyletswyddau datodydd?

Penodir y datodydd i ddirwyn materion y cwmni i ben. Bydd y datodydd yn gwneud hyn drwy grynhoi holl asedau'r cwmni a'u dosbarthu ymhlith ei gredydwyr. Os bydd rhywbeth ar ôl, bydd y datodydd yn ei ddosbarthu ymhlith aelodau'r cwmni.

9. Oes angen i ddatodydd roi gwybod i rywun am ei benodiad?

Oes. Cyn pen 14 diwrnod ar ôl ei benodi, rhaid i ddatodydd gyhoeddi hysbysiad o'i benodiad yn y Gazette a rhoi gwybod i'r Cofrestrydd.

Os yw'r ymddatod yn wirfoddol, rhaid i'r datodydd gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd ym mhrif ardal fusnes y cwmni.

10. Beth mae'n rhaid i'r datodydd ei anfon i Dŷ'r Cwmnïau?

Rhaid i'r datodydd anfon datganiad o amgylchiadau ynghyd â'r ffurflen briodol at y Cofrestrydd cyn pen 5 diwrnod ar ôl cyfarfod y credydwyr.

Os dechreuodd yr ymddatod gwirfoddol ar 5 Ebrill 2010 neu cyn hynny, rhaid i'r datodydd anfon datganiad o'r derbyniadau a'r taliadau ar gyfer 12 mis cyntaf yr ymddatod hefyd. Wedi hynny, rhaid anfon datganiadau bob 6 mis nes cwblhau'r broses dirwyn i ben.

Os dechreuodd yr ymddatod gwirfoddol ar 6 Ebrill 2010 neu ar ôl hynny, rhaid i'r datodydd anfon adroddiad y datodydd ar gyfer 12 mis cyntaf yr ymddatod. Wedi hynny, rhaid anfon datganiadau bob 12 mis nes cwblhau'r broses dirwyn i ben.

11. Oes modd troi YGA yn YGC?

Oes. Os yw'r datodydd yn penderfynu na fydd y cwmni'n gallu talu ei ddyledion yn llawn yn ystod y cyfnod a bennir yn natganiad hydaledd statudol y cyfarwyddwyr, rhaid iddo alw cyfarfod o'r credydwyr a'i gynnal cyn pen 28 diwrnod. Daw'r ymddatod yn YGC o ddyddiad y cyfarfod ymlaen.

12. Beth yw'r gofynion ar gyfer rhoi rhybudd mewn achos o'r fath?

Rhaid i'r datodydd:

- anfon rhybudd o'r cyfarfod at bob credydwr o leiaf 7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod;

- cyhoeddi dyddiad y cyfarfod yn y Gazette a dau bapur newydd lleol ym mhrif ardal fusnes y cwmni; a

- pharatoi datganiad o amgylchiadau i'w drafod yn y cyfarfod. Rhaid anfon copi o'r datganiad at y Cofrestrydd cyn pen 5 diwrnod ar ôl dyddiad y cyfarfod.

13. Beth sy'n digwydd pan gaiff materion y cwmni eu dirwyn i ben yn llawn?

Ar gyfer achosion o ymddatod gwirfoddol a ddechreuodd ar 5 Ebrill 2010 neu cyn hynny, bydd y datodydd yn cyflwyno cyfrif i gyfarfod terfynol y credydwyr ac aelodau'r cwmni. Rhaid iddo roi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod yn y Gazette o leiaf fis ymlaen llaw.

Cyn pen wythnos ar ôl y cyfarfod, rhaid i'r datodydd anfon y cyfrif at y Cofrestrydd ar ffurf adroddiad ar y cyfarfod terfynol.

Ar gyfer achosion ymddatod gwirfoddol a ddechreuodd ar 6 Ebrill 2010 neu ar ôl hynny, bydd y datodydd yn cyflwyno adroddiad llawn i gyfarfod terfynol o gredydwyr ac aelodau'r cwmni. Rhaid iddo roi cyhoeddusrwydd i'r cyfarfod yn y Gazette o leiaf fis ymlaen llaw.

Cyn pen wythnos ar ôl cynnal y cyfarfod, rhaid i'r datodydd anfon yr adroddiad terfynol ar gynnydd at y Cofrestrydd ynghyd â ffurflen adroddiad ar gyfarfod terfynol.

Oni wna'r llys orchymyn i ohirio diddymu'r cwmni, caiff ei ddiddymu 3 mis wedi cofrestru'r adroddiad a'r cyfrif yn Nhŷ'r Cwmnïau.

14. Pa ffurflenni y dylid eu defnyddio?

Yn sgil gweithredu Rheolau Ansolfedd (Diwygio) 2010, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2010, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn pennu'r ffurflenni ansolfedd canlynol o fewn Rheolau'r Cofrestrydd, a rhai ohonynt am y tro cyntaf. Rhaid ffeilio'r ffurflenni isod gyda'r Cofrestrydd ym mhob achos o ymddatod gwirfoddol. Rhaid defnyddio'r ffurflenni hyn gyda'r diwygiadau priodol (os yw'n berthnasol) ar gyfer unrhyw ymddatod gwirfoddol a ddechreuodd ar 5 Ebrill 2010 neu cyn hynny:

Teitl y ffurflen	***Rhif***
Hysbysiad am benodi datodydd o dan drefn dirwyn i ben yn wirfoddol (aelodau neu gredydwyr)	*600*
Datganiad o amgylchiadau wrth drosi o drefn ymddatod gwirfoddol gan yr aelodau i ymddatod gwirfoddol gan y credydwyr	4.18 a 4.20
Datganiad o amgylchiadau o dan y drefn ymddatod gwirfoddol gan y credydwyr	4.19 a 4.20
Hysbysiad am ymddiswyddiad datodydd gwirfoddol o dan a171(5) o Ddeddf Ansolfedd 1986	4.33
Gorchymyn Llys yn rhoi caniatâd i ddatodydd gwirfoddol ymddiswyddo	4.35
Tystysgrif diswyddo datodydd gwirfoddol	4.38
Hysbysiad am roi'r gorau i weithredu fel datodydd gwirfoddol	4.40
Hysbysiad am farwolaeth datodydd gwirfoddol	4.44
Hysbysiad am ddatodydd gwirfoddol yn gadael ei swydd	4.46
Hysbysiad am gyfansoddiad pwyllgor ymddatod	4.48
Tystysgrif i dystio bod y credydwyr wedi cael eu talu'n llawn	4.51
Datganiad y datodydd o dderbyniadau a thaliadau	4.68
Datganiad o hydaledd o dan y drefn dirwyn i ben yn wirfoddol gan yr aelodau sy'n ymgorffori datganiad o'r asedau a'r rhwymedigaethau	4.70
Adroddiad ar y cyfarfod terfynol o dan y drefn dirwyn i ben yn wirfoddol gan yr aelodau	4.71
Adroddiad ar y cyfarfod terfynol o dan y drefn dirwyn i ben yn	4.72

wirfoddol gan y credydwyr	

Sylwer: Ac eithrio Ffurflen 600, nid yw'r ffurflenni hyn ar gael i'w dadlwytho o wefan Tŷ'r Cwmnïau ond gallwch weld delweddau o'r dogfennau hyn yn Rheolau'r Cofrestrydd. Mae copïau ar gael gan ddogfenwyr y gyfraith cwmnïau.

Pennod 6
Ymddatod gorfodol

1. Beth yw 'ymddatod gorfodol'?

Caiff cwmni ei ddatod yn orfodol os yw'r llys yn gorchmyn ei ddirwyn i ben.

2. Pa lysoedd all orchymyn ymddatod gorfodol?

Gall yr Uchel Lys, neu lys sirol â'r awdurdodaeth briodol, orchymyn dirwyn cwmni i ben. Gall hyn ddigwydd yn sgil deiseb credydwr neu gredydwyr er enghraifft, ar y sail nad oes modd i'r cwmni dalu ei ddyledion.

Ystyrir nad yw cwmni'n gallu talu ei ddyledion os bydd, er enghraifft:

- ar y cwmni fwy na £750 i gredydwr;
- credydwr yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r cwmni yn y ffurf benodedig (a elwir yn hawliad statudol); a
- bod y cwmni'n methu â thalu, gwarantu na chytuno i fodloni'r ddyled er boddhad rhesymol y credydwr.

Ceir amgylchiadau eraill lle'r ystyrir na all y cwmni dalu ei ddyledion. Dylech ddarllen y ddeddfwriaeth berthnasol.

Gall y llys hefyd orchymyn i'r cwmni gael ei ddirwyn i ben yn sgil deiseb:

- y cwmni ei hun;
- cyfarwyddwyr neu un neu ragor o aelodau'r cwmni;
- yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau;
- yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (gynt, y Bwrdd Gwarannoedd a Buddsoddi); neu'r
- Derbynnydd Swyddogol.

Yn achos cwmni Ewropeaidd (SE) sydd wedi ei gofrestru ym Mhrydain Fawr, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddeisebu'r Llys am orchymyn dirwyn y cwmni i ben ar y sail ei bod yn ymddangos nad yw prif swyddfa a swyddfa gofrestredig yr SE ill dwy ym Mhrydain Fawr. Mae rhagor o wybodaeth am gwmnïau SE yn ein canllaw 'The European Company: Societas Europaea (SE)'.

3. Oes rhaid cyhoeddi'r ddeiseb?

Oni bai bod y llys yn rhoi cyfarwyddiadau eraill, rhaid cyhoeddi'r ddeiseb yn y Gazette.

4. Beth fydd yn ymddangos ar gofnod y cwmni yn Nhŷ'r Cwmnïau?

Os bydd y ddeiseb yn llwyddiannus, bydd y derbynnydd swyddogol yn anfon copi o'r gorchymyn at y Cofrestrydd, a chaiff ei roi ar gofnod cyhoeddus y cwmni.

Ni chyflwynir y ddeiseb ei hun i'r Cofrestrydd, ac ni fydd yn ymddangos ar y cofnod cyhoeddus.

5. Pwy sy'n gweithredu fel datodydd pan wneir gorchymyn i ddirwyn y cwmni i ben?

Daw'r Derbynnydd Swyddogol yn ddatodydd pan wneir gorchymyn i ddirwyn cwmni i ben, oni bai bod y llys yn gorchymyn fel arall.

6. Beth yw dyletswyddau'r Derbynnydd Swyddogol fel datodydd?

Mae gan y Derbynnydd Swyddogol ddyletswydd i archwilio materion y cwmni ac achosion ei fethiant.

Bydd hefyd yn penderfynu a ddylid galw cyfarfodydd o'r credydwyr a'r cyfranwyr (sef, y bobl hynny sy'n atebol i gyfrannu at asedau'r cwmni os caiff ei ddirwyn i ben) at ddibenion penodi datodydd yn ei le.

Os yw'n penderfynu peidio â galw cyfarfodydd, rhaid iddo roi gwybod i'r credydwyr, y cyfranwyr a'r llys am ei benderfyniad.

Ar y llaw arall, os yw'n penderfynu galw cyfarfodydd, gellir penodi datodydd yn lle'r Derbynnydd Swyddogol. Rhaid i'r datodydd roi gwybod i'r Cofrestrydd am ei benodiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl

Os daw swydd y datodydd yn wag unrhyw bryd, fe ddaw'r Derbynnydd Swyddogol yn ddatodydd nes y gellir llenwi'r swydd.

7. Beth sy'n digwydd pan gwblheir y broses dirwyn i ben?

Pan gaiff y Cofrestrydd hysbysiad am gyfarfod terfynol y credydwyr gan y datodydd, neu hysbysiad fod y dirwyn i ben wedi ei gwblhau gan y Derbynnydd Swyddogol, bydd yn ei gofrestru ac yn cyhoeddi'r ffaith ei fod wedi cael ei dderbyn yn y Gazette.

Oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi fel arall, caiff y cwmni ei ddiddymu 3 mis ar ôl cofrestru'r hysbysiad yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Os bydd y Derbynnydd Swyddogol, wrth weithredu fel datodydd, yn fodlon na

fydd asedau sylweddadwy'r cwmni (sef yr asedau y gellid eu gwerthu neu gael gwared arnynt er mwyn codi arian) yn diwallu'r treuliau dirwyn i ben ac nad oes angen ymchwilio ymhellach i faterion y cwmni, gall wneud cais i'r Cofrestrydd am i'r cwmni gael ei ddiddymu'n gynnar. Caiff y cwmni ei ddirwyn i ben 3 mis ar ôl cofrestru'r cais yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Pennod 7
Gweithrediadau ansolfedd trawsffiniol Ewropeaidd

Daeth Rheoliad Cyngor (y GE) Rhif 1346/2000 i rym ar 31 Mai 2002. Mae'r Rheoliad yn uniongyrchol gymwys ac yn rhan annatod o gyfraith pob un o'r aelod-wladwriaethau (ac eithrio Denmarc lle bydd deddfwriaeth gyfochrog yn gymwys). I weithredu'r Rheoliad yn y DU, bu angen gwneud rhai newidiadau cyfyngedig i Ddeddf Ansolfedd 1986 ac i'r Rheoliadau Ansolfedd.

1. Beth yw effaith y Rheoliad?

Mae'r Rheoliad yn cyfyngu ar ble y gellir cychwyn achos ansolfedd i'r wlad lle lleolir "canolfan prif fuddiannau" y dyledwr. Mae'n mynnu bod gweithrediadau ansolfedd a gychwynnir o dan y Rheoliad yn cael eu cydnabod, ac i ddatodwyr allu arfer eu pwerau, yn yr holl aelod-wladwriaethau.

Dyma'r gweithrediadau ansolfedd cwmnïau perthnasol a gwmpesir gan y Rheoliad yn y DU –

- Dirwyn i ben o dan oruchwyliaeth y llys, neu'n ddarostyngedig iddi;
- Dirwyn i ben yn wirfoddol gan y credydwyr (gyda chadarnhad y llys);
- Gweinyddu; a
- Threfniadau gwirfoddol corfforaethol o dan y ddeddfwriaeth ansolfedd.

Nid yw'r Rheoliad yn gymwys i achosion sy'n mynd i ddwylo'r derbynnydd – gweinyddol neu fel arall – nac i ddirwyn i ben yn wirfoddol gan yr aelodau nac i orchmynion dirwyn i ben ychwaith.

Yn sgil y rheoliadau, cafodd nifer o ffurflenni statudol (yn ymwneud â chychwyn achos ansolfedd yn bennaf) eu diwygio a chyflwynwyd un ffurflen newydd (Ffurflen 7.20 Cadarnhad y Llys o Drefniadau Dirwyn i Ben yn Wirfoddol gan y Credydwyr).

2. Cwmnïau wedi eu corffori ym Mhrydain Fawr

Bydd gweithrediadau ansolfedd a gychwynnir yn y wlad hon yn parhau fel arfer. Ond gall gweithrediadau ansolfedd gael eu cychwyn mewn gwlad arall sy'n perthyn i'r UE os yw canolfan prif fuddiannau'r cwmni yno.

Bydd cofnodion cyhoeddus cwmnïau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr yn dangos gweithrediadau ansolfedd wedi eu cychwyn yn un o aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Dyma fydd yr unig arwydd bod gweithrediadau ansolfedd yn digwydd dramor – ni fydd y cyfeirydd 'L' (am "liquidation") yn ymddangos wrth ochr enw'r cwmni ar fynegai'r Cofrestrydd o enwau cwmnïau.

3. Cwmnïau wedi eu corffori mewn gwledydd eraill sy'n perthyn i'r UE

Gall gweithrediadau ansolfedd gael eu cychwyn yn y DU a'u llywio gan gyfraith y DU os yw canolfan prif fuddiannau'r cwmni yma. Fel arall, gall gweithrediadau ansolfedd gael eu cychwyn gan aelod-wladwriaeth arall.

Bydd cofnodion cyhoeddus cwmnïau'r UE sydd wedi cofrestru man busnes neu gangen yng Nghymru a Lloegr yn dangos bod gweithrediadau ansolfedd wedi eu cychwyn yn un o wledydd eraill yr UE. Dyma fydd yr unig arwydd bod gweithrediadau ansolfedd yn digwydd dramor – ni fydd y cyfeirydd 'L' (am "liquidation") yn ymddangos wrth ochr enw'r cwmni ar fynegai'r Cofrestrydd o enwau cwmnïau.

Gall cwmnïau'r UE sydd heb gofrestru man busnes neu gangen yng Nghymru a Lloegr gyflwyno manylion gweithrediadau ansolfedd a gychwynnwyd yn un o wledydd eraill yr UE. Gellir chwilio'r dogfennau hyn ar Gofrestr Gorchmynion Ansolfedd y GE drwy gysylltu â Thŷ'r Cwmnïau ar 0303 1234 500.

4. Ble galla i gael copïau o'r ddeddfwriaeth berthnasol a gwybodaeth bellach?

Mae copïau o Reoliad y Cyngor ac Offerynnau Statudol perthnasol y DU ar gael ar wefan y Gwasanaeth Ansolfedd.

Dylid cyflwyno ymholiadau am y Rheoliad i Uned Bolisi'r Gwasanaeth Ansolfedd neu ffonio 020 7291 6740.

Pennod 8
Cwestiynau Cyffredin

Gall trefniadau ymddatod a threfniadau ansolfedd eraill fod yn faith a chymhleth. Ni all y canllaw hwn ateb pob ymholiad ond dyma rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin.

1. Oes angen i mi anfon y Gorchymyn Llys sy'n penodi datodydd dros dro i Dŷ'r Cwmnïau?

Rhaid hysbysu'r cofrestrydd cwmnïau am benodiad datodydd dros dro trwy anfon y gorchymyn llys a ffurflen 4.15A ato.

2. A gaf i gofrestru hysbysiad yn terfynu penodiad datodydd dros dro?

Cewch. Oni bai bod y terfyniad yn digwydd yn sgil gorchymyn diddymu neu yn ôl cyfarwyddiadau eraill y llys, rhaid anfon hysbysiad am derfynu penodiad y datodydd dros dro at y cofrestrydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a hynny gan ddefnyddio Ffurflen F4.39. Nid yw'r ffurflen hon ar gael i'w dadlwytho o wefan Tŷ'r Cwmnïau ond gellir gweld copïau yn Rheolau'r Cofrestrydd. Gellir cael copïau gan Ddogfenwyr Cyfreithiol

3. Sut mae mynd ati i ohirio dyddiad diddymu cwmni oedd yn destun achos ymddatod?

Pan ddaw dogfennaeth derfynol y datodydd o dan adrannau 201 a 205 o Ddeddf Ansolfedd 1986 i law'r Cofrestrydd, rhaid ei chofrestru'n syth. Ymhen cyfnod o ryw dri mis, caiff y cwmni ei ddiddymu. Fodd bynnag, efallai y bydd modd gohirio'r dyddiad y daw'r diddymu i rym.

Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Cofrestrydd dderbyn naill ai cyfarwyddyd gohirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol (mewn achosion datod gorfodol – ad.205) neu orchymyn llys i ohirio (mewn achosion gwirfoddol – ad.201). Dylech wneud cais am b'un bynnag sy'n briodol yn syth. Er y gall fod yn bosibl estyn y cyfnod gohirio drwy wneud cais pellach, dylech ddeall nad oes modd ei gwtogi. Felly dylech ddewis cyfnod y gohirio'n ofalus.

Rhaid i ni dderbyn y ddogfen mewn pryd i allu ei harchwilio a'i chofrestru cyn diddymu'r cwmni.

4. Oes angen i gyfarwyddwyr sy'n destun datodiad ffeilio cyfrifon blynyddol a ffurflen flynyddol (Ffurflen AR01)?

Unwaith bod cwmni'n ymddatod a bod y dogfennau ymddatod statudol wedi eu cofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau, nid oes angen ffeilio cyfrifon blynyddol na ffurflen flynyddol. Ond nes bod Tŷ'r Cwmnïau wedi derbyn hysbysiad bod yr ymddatod wedi dechrau, ystyrir bod y cyfrifon blynyddol a'r ffurflen flynyddol yn ddyledus o hyd.

Os bydd cwmni'n gwrthdroi'r ymddatod, a hynny drwy orchymyn llys i'w atal (gweler isod), ac yn cael ei adfer i'r gofrestr cwmnïau byw, yna dylid ffeilio'r cyfrifon blynyddol a'r ffurflenni blynyddol diweddaraf. Gall methu â chydymffurfio olygu bod enw'r cwmni'n cael ei ddileu o'r gofrestr.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau eraill ynglŷn â ffeilio cyfrifon blynyddol a ffurflenni blynyddol at yr Adran Gydymffurfio yn Nhŷ'r Cwmnïau drwy ffonio Tŷ'r Cwmnïau ar 0303 1234 500.

5. A fydd Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn hysbysiad bod cyfarwyddwr wedi ymddiswyddo (Ffurflen TM01) unwaith bod cwmni wedi ymddatod?

Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn ffurflenni TM01 wedi eu cwblhau'n gywir gyda golwg ar ymddiswyddiad cyfarwyddwyr hyd yn oed os yw'r cwmni wedi ymddatod.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau eraill ynglŷn â ffeilio ffurflenni TM01 at ganolfan gyswllt Tŷ'r Cwmnïau drwy ffonio Tŷ'r Cwmnïau ar 0303 1234 500.

6. Beth sy'n digwydd wrth i mi ffeilio Gorchymyn i atal datodiad?

Gall y Llys wneud Gorchymyn i atal neu roi heibio i weithrediadau dirwyn i ben, naill ai'n llwyr neu am gyfnod cyfyngedig, a hynny'n unol ag Adran 112 ac Adran 147 o Ddeddf Ansolfedd 1986.

Rhaid anfon y Gorchymyn at y Cofrestrydd i'w gynnwys yng nghofnodion y cwmni.

Bydd y Cofrestrydd yn ymgorffori'r Gorchymyn yn y cofnodion cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol:

(i) Caiff y Gorchymyn ei hun ei roi ar gofnod cyhoeddus y cwmni. Fe'i nodir fel dogfen 'amrywiol' ar y rhestr o ddogfennau a ddaeth i law'r Cofrestrydd.

(ii) Caiff yr arwydd Ymddatod ei ddileu o gofnod cyhoeddus y cwmni. Bydd chwiliwr yn gallu cael copi o'r gorchymyn dirwyn i ben o hyd. Yn ogystal, bydd modd sicrhau manylion yr ansolfedd o dan adran ansolfedd y cynhyrchion chwilio electronig.

(iii) Unwaith bod y gorchymyn atal wedi ei gofnodi, rhaid ffeilio unrhyw gyfrifon a ffurflenni blynyddol sy'n ddyledus, fel yn achos unrhyw gwmni byw a gweithredol arall. Gallai methu â chydymffurfio olygu bod enw'r cwmni'n cael ei ddileu o'r gofrestr.

7. Mae fy ngwres canolog yn colli dŵr. Mae'r cwmni dan sylw wedi ymddatod bellach. Ydy fy ngwarant yn dal yn ddilys?

Ni all Tŷ'r Cwmnïau ateb y cwestiwn hwn. Cysylltwch â'r datodydd.

8. Sut galla i ganfod enw datodydd cwmni penodol?

Mae'r wybodaeth hon ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan Tŷ'r Cwmnïau neu trwy ffonio 0303 1234 500.

Pennod 9
Ansawdd dogfennau

1. Beth sy'n digwydd i'r dogfennau a anfonir i Dŷ'r Cwmnïau?

Caiff y dogfennau a'r ffurflenni a gyflwynir i Dŷ'r Cwmnïau eu sganio i greu delwedd electronig. Wedyn, caiff y dogfennau gwreiddiol eu storio a defnyddir y ddelwedd electronig fel dogfen waith.

Wrth i'ch cysylltiadau busnes chwilio cofnod y cwmni, byddant yn gweld y ddelwedd electronig wedi ei hatgynhyrchu ar-lein. Mae'n bwysig felly bod y gwreiddiol yn ddarllenadwy a'i fod yn gallu creu copi clir.

Pennod 10
Gwybodaeth bellach

1. Ble galla i fynd i gael cymorth?

Bydd staff Tŷ'r Cwmnïau yng Nghaerdydd yn gallu'ch cynghori ar faterion sy'n union gysylltiedig â ffeilio dogfennau ansolfedd gyda'r cofrestrydd. Ond os ydych chi'n ystyried rhyw fath o ansolfedd, dylech geisio cyngor ymarferydd ansolfedd yn gyntaf.

Dylech gyfeirio cwynion ynglŷn ag ymddygiad ymarferydd ansolfedd trwyddedig, yn ysgrifenedig, i:

The Insolvency Practitioners' Section
The Insolvency Service
Area 1.10
PO Box 203
21 Bloomsbury Street
Llundain
WC1B 3QW

Byddan nhw'n anfon eich cwyn ymlaen i gorff awdurdodi'r ymarferydd.

2. Ble galla i gael ffurflenni a chanllawiau?

Mae hwn yn un o gyfres o lyfrynnau gan Dŷ'r Cwmnïau sy'n rhoi arweiniad syml i'r Ddeddf Cwmnïau.

Mae'r ffurflenni canlynol (y soniwyd amdanyn nhw yn y canllaw hwn) ar gael i'w dadlwytho o wefan Tŷ'r Cwmnïau :

- LQ01 hysbysiad penodi derbynnydd neu reolwr;
- LQ02 hysbysiad rhoi heibio i weithredu fel derbynnydd neu reolwr;

- 600 hysbysiad am benodi datodydd o dan y drefn dirwyn i ben yn wirfoddol (aelodau neu gredydwyr); ac

- SE WU01 hysbysiad cychwyn neu derfynu dirwyn i ben, ymddatod, ansolfedd, rhoi heibio i drefniadau talu, a phenderfyniad i barhau i weithredu Societas Europaea (SE).

Rhestr o ffurflenni Tŷ'r Cwmnïau sydd ar gael i'w dadlwytho

Gellir cael copi o bob ffurflen arall a enwyd yn y canllaw hwn gan ddogfenwyr y gyfraith cwmnïau, neu gellir gweld copïau yn Rheolau'r Cofrestrydd. Ceir rhestr o ddogfenwyr y gyfraith cwmnïau yn yr 'Yellow Pages'.

Mae ffurflenni statudol a chanllawiau ar gael, yn rhad ac am ddim, gan Dŷ'r Cwmnïau. Y ffordd gyflymaf i'w sicrhau yw drwy'r wefan hon neu drwy ffonio 0303 1234 500.

3. Sut mae mynd ati i anfon gwybodaeth at y Cofrestrydd?

- Dylai dogfennau, gan gynnwys gorchmynion llys, ddangos enw cywir a rhif cofrestru'r cwmni lle bo hynny'n briodol.

- Ni fydd Tŷ'r Cwmnïau yn cydnabod bod eich gwybodaeth wedi dod i law oni bai eich bod yn anfon amlen â stamp a'ch cyfeiriad arni.

- Dylech chi ddarparu dogfennau mewn fformat portread (sef, â'r ymyl byrraf ar draws y brig).

Gallwch chi gyflwyno dogfennau â llaw i swyddfeydd Caerdydd neu Lundain (yn bersonol neu drwy negesydd), gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa, dros wyliau banc ac ar benwythnosau.

Gallwch gyflwyno dogfennau hefyd drwy'r post neu drwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Dogfennau.

Wrth anfon dogfennau ansolfedd drwy'r post, dylech eu cyfeirio at:

Yr Adran Ymddatod
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ

DX33050 Caerdydd 1

Sylwer: Nid yw Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn cyfrifon na dogfennau statudol eraill drwy ffacs.

sut i gyswllt â ni

Fersiwn 3.1 (05/10)

canolfan cyswllt a gwybodaeth: **0303 1234 500**
(Er dibenion hyfforddi a sicrhau ansawdd, fe allai eich galwad gael ei monitro)

mini-com: 029 2038 1245
enquiries@companieshouse.gov.uk
www.tyrcwmniau.gov.uk

Caerdydd: Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron, Caerdydd CF14 3UZ

Caeredin: Companies House
Fourth Floor, Edinburgh Quay 2,
139 Fountainbridge, Edinburgh, EH3 9FF

Llundain: Companies House
21 Bloomsbury Street, London, WC1B 3XD

Belfast: Companies House,
Second Floor, The Linenhall,
32-38 Linenhall Street, Belfast, BT2 8BG

Am y fersiwn y mwyaf diweddaraf o'r llyfryn hwn, gweler ein gwefan:

www.tyrcwmniau.gov.uk

Dyfarnwyd am Ragoriaeth